

BRO DWYNWEN 24/11/2024
Pedwerydd Sul y Deyrnas
Fourth Sunday of the Kingdom
Crist y Brenin – Christ the King

Colect 140

Dad tragwyddol,
yr esgynnodd dy Fab Iesu Grist i orseddfainc nef
iddo deyrnasu dros bob dim yn Arglwydd ac yn Frenin:
cadw'r Eglwys yn undod yr Ysbryd
ac yn rhwymyn tangnefedd,
a dwg yr holl greadigaeth
i addoli wrth ei draed ef;
caniatâ hyn er mwyn dy Fab Iesu Grist,
i'r hwn gyda thi a'r Ysbryd Glân
y bo'r deyrnas, y gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd.

Collect 140

Eternal Father,
whose Son Jesus Christ ascended to the throne of heaven
that he might rule over all things as Lord and King:
keep the Church in the unity of the Spirit
and in the bond of peace,
and bring the whole created order to worship at his feet;
grant this for the sake of your Son Jesus Christ,
to whom with you and the Holy Spirit,
be the kingdom, the power and the glory, for ever and ever.

Daniel 7. 9-10, 13, 14

Fel yr oeddwn yn edrych, gosodwyd y gorseddau yn eu lle ac eisteddodd Hen Ddihenydd; yr oedd ei wisg cyn wynned â'r eira, a gwallt ei ben fel gwlan pur; yr oedd ei orsedd yn fflamau o dân, a'i holwynion yn dân crasboeth. Yr oedd afon danlyd yn llifo allan o'i flaen. Yr oedd mil o filoedd yn ei wasanaethu a myrdd o fyrddiynau'n sefyll ger ei fron. Eisteddodd y llys ac agorwyd y llyfrau.

Ac fel yr oeddwn yn edrych ar weledigaethau'r nos, Gwelais un fel mab dyn yn dyfod ar gymylau'r nef; a daeth at yr Hen Ddihenydd a chael ei gyflwyno iddo. Rhoddwyd iddo arglwyddiaeth a gogoniant a brenhiniaeth, i'r holl bobloedd o bob cenedl ac iaith ei wasanaethu. Y mae ei arglwyddiaeth yn dragwyddol a digyfnawid, a'i frenhiniaeth yn un na ddinistrir.

Daniel 7. 9-10, 13, 14

As I watched, thrones were set in place, and an Ancient One took his throne; his clothing was white as snow, and the hair of his head like pure wool; his throne was fiery flames, and its wheels were burning fire. A stream of fire issued and flowed out from his presence. A thousand thousand served him, and ten thousand times ten thousand stood attending him. The court sat in judgement, and the books were opened. As I watched in the night visions, I saw one like a human being coming with the clouds of heaven. And he came to the Ancient One and was presented before him. To him was given dominion and glory and kingship, that all peoples, nations, and languages should serve him. His dominion is an everlasting dominion that shall not pass away, and his kingship is one that shall never be destroyed.

Salm 93

Y mae'r ARGLWYDD yn frenin; y mae wedi ei wisgo â mawredd, y mae'r ARGLWYDD wedi ei wisgo, a nerth yn wregys iddo. Yn wir, y mae'r byd yn sicr, ac nis symudir; y mae dy orsedd wedi ei sefydlu erioed; yr wyt ti er tragwyddoldeb. Cododd y dyfroedd, O ARGLWYDD, cododd y dyfroedd eu llais, cododd y dyfroedd eu rhu. Cryfach na swn dyfroedd mawrion, cryfach na thonnau'r môr, yw'r ARGLWYDD yn yr uchelder. Y mae dy dystiolaethau'n sicr iawn; sancteiddrwydd sy'n gweddu i'th dŷ, O ARGLWYDD, hyd byth.

Psalm 93

The Lord is king, he is robed in majesty; the Lord is robed, he is girded with strength. He has established the world; it shall never be moved; your throne is established from of old; you are from everlasting.

The floods have lifted up, O Lord, the floods have lifted up their voice; the floods lift up their roaring. More majestic than the thunders of mighty waters, more majestic than the waves of the sea, majestic on high is the Lord!

Your decrees are very sure; holiness befits your house, O Lord, for evermore.

Datguddiad 1. 4b-8

Gras a thangnefedd i chwi oddi wrth yr hwn sydd a'r hwn oedd a'r hwn sydd i ddod, ac oddi wrth y saith ysbryd sydd gerbron ei orsedd, ac oddi wrth Iesu Grist, y tyst ffyddlon, y cyntafanedig oddi wrth y meirw a llywodraethwr brenhinoedd y ddaear.

I'r hwn sydd yn ein caru ni ac a'n rhyddhaodd ni oddi wrth ein pechodau â'i waed, ac a'n gwnaeth yn urdd frenhinol, yn offeiriaid i Dduw ei Dad, iddo ef y bo'r gogoniant a'r gallu byth bythoedd! Amen.

Wele, y mae'n dyfod gyda'r cymylau, a bydd pob llygad yn ei weld, ie, a'r rhai a'i trywanodd, a bydd holl lwythau'r ddaear yn galaru o'i blegid ef. Boed felly! Amen.

"Myfi yw Alfa ac Omega," medd yr Arglwydd Dduw, yr hwn sydd a'r hwn oedd a'r hwn sydd i ddod, yr Hollalluog.

Revelation 1. 4b-8

Grace to you and peace from him who is and who was and who is to come, and from the seven spirits who are before his throne, and from Jesus Christ, the faithful witness, the firstborn of the dead, and the ruler of the kings of the earth.

To him who loves us and freed us from our sins by his blood, and made us to be a kingdom, priests serving his God and Father, to him be glory and dominion for ever and ever. Amen.

Look! He is coming with the clouds; every eye will see him, even those who pierced him; and on his account all the tribes of the earth will wail. So it is to be. Amen.

'I am the Alpha and the Omega', says the Lord God, who is and who was and who is to come, the Almighty.

Ioan 18. 33-37

Yna, aeth Pilat i mewn i'r Praetoriwm eto. Galwodd Iesu, ac meddai wrtho, "Ai ti yw Brenin yr Iddewon?" Atebodd Iesu, "Ai ohonot dy hun yr wyt ti'n dweud hyn, ai ynteu eraill a ddywedodd hyn wrthynt amdanaf fi?" Atebodd Pilat, "Ai Iddew wyf fi? Dy genedl dy hun a'i phrif offeiriaid sydd wedi dy drosglwyddo di i mi. Beth wnaethost ti?" Atebodd Iesu, "Nid yw fy nheyrnas i o'r byd hwn. Pe bai fy nheyrnas i o'r byd hwn, byddai fy ngwasanaethwyr i yn ymladd, rhag imi gael fy nhrosglwyddo i'r Iddewon. Ond y gwir yw, nid dyma darddle fy

nheyrnas i." Yna meddai Pilat wrtho, "Yr wyt ti yn frenin, ynteu?" "Ti sy'n dweud fy mod yn frenin," atebodd Iesu. "Er mwyn hyn yr wyf fi wedi cael fy ngeni, ac er mwyn

hyn y deuthum i'r byd, i dystiolaethu i'r gwirionedd. Y mae pawb sy'n perthyn i'r gwirionedd yn gwrando ar fy llais i."

John 18. 33-37

Then Pilate entered the headquarters again, summoned Jesus, and asked him, 'Are you the King of the Jews?' Jesus answered, 'Do you ask this on your own, or did others tell you about me?' Pilate replied, 'I am not a Jew, am I? Your own nation and the chief priests have handed you over to me. What have you done?' Jesus answered, 'My kingdom is not from this world. If my kingdom were from this world, my followers would be fighting to keep me from being handed over to the Jews. But as it is, my kingdom is not from here.' Pilate asked him, 'So you are a king?' Jesus answered, 'You say that I am a king. For this I was born, and for this I came into the world, to testify to the truth. Everyone who belongs to the truth listens to my voice.'

Ôl Gymun 141

Deffro, Arglwydd, erfyniwn arnat,
ewyllys dy bobl ffyddlon;
fel, gan ddwyn ffrwyth gweithredoedd da yn helaeth,
y cânt eu gwobrwyo'n helaeth gennynt ti;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Post Communion Prayer 141

Stir up, O Lord,
the wills of your faithful people;
that they, plenteously bringing forth the fruit of good works,
may by you be plenteously rewarded;
through Jesus Christ our Lord.